



Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru

Mesurau i Reoli Cregyn y Moch 2020 - Estyniad

Cyflwyniad i gynllun awdurdodi a therfyn glanio hyblyg cysylltiedig ar gyfer cychod o'r DU sy'n dal cregyn y moch (*Buccinum undatum*) â chewyll ym Mharth Cymru.

Dyddiad cyhoeddi: 5 Hydref 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Ymgynghoriad ar gyfer Cymru'n unig yw hwn sy'n gosod allan cynigion i gyflwyno:

- cynllun awdurdodi ar gyfer bob cwch o'r DU sy'n dal cregyn moch mewn cewyll ym mharth Cymru, a
- therfyn blynyddol ar faint o gregyn moch y caniateir eu dal ym mharth Cymru, a
- therfyn glanio misol hyblyg ar gyfer y cychod sydd wedi cael eu hawdurdodi.

Sut i ymateb

Gellir cyflwyno ymatebion drwy e-bost, y post neu ar ffurflen ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau.

Dylid anfon ymatebion drwy e-bost/post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn 1 Tachwedd 2020 fan hwyraf. Rhowch 'Ymgynghoriad ar Fesurau Rheoli Cregyn y Moch 2020' ym mlwch pwnc eich e-bost.

E-bost:

marineandfisheries@gov.wales

Trwy'r post:

Ymgynghoriad ar Fesurau Rheoli Cregyn y Moch 2020
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
perthnasol**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon
mewn print bras, mewn Braille neu mewn
ieithoedd eraill.**

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ymgynghoriad ar Fesurau Rheoli Cregyn y Moch 2020
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

E-bost: **marineandfisheries@gov.wales**

Rhif ffôn: 03000 253500

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon, yn unol â'u pwerau statudol, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- i ofyn (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i ofyn inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys		Tudalen
Adran A	Cyflwyniad	2
Adran B	Manylion y mesurau rheoli a gynigir	8
Adran C	Gweithredu	13
Ffurflen Ymateb		14

Adran A: Cyflwyniad

Y Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu pysgodfeydd a'u rheoli'n gynaliadwy ar sail tystiolaeth wyddonol gadarn. Rydym am i Gymru allu diwallu anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory trwy greu a chynnal amgylchedd morol iach a chefnogi diwydiant pysgota proffidiol, sefydlog ac amrywiol.
2. Ar hyn o bryd, er bod rhai eithriadau, er mwyn cael dal cregyn moch ym mharth Cymru, rhaid i unigolion ddefnyddio cychod pysgota trwyddedig a chofrestredig.
3. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar 'Mesurau Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Pysgodfa Cregyn Moch Cymru' yn 2017, cynyddodd Llywodraeth Cymru y maint glanio lleiaf i 55mm ym mis Gorffennaf 2019¹. Bydd y maint lleiaf yn cynyddu eto i 65mm ym mis Gorffennaf 2020 a bydd yn rhaid i bob cwch o'r DU sy'n dal cregyn y moch ym mharth Cymru (sy'n cynnwys y môr tiriogaethol hyd at 12mf o'r lan) gadw at y rheol hon.²
4. Hefyd, ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fwiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno:
 - Terfyn glanio chwarterol o 60 o dunelli o gregyn moch fesul cwch, o fis Ionawr i Fis Medi bob blwyddyn, ar gyfer pob cwch o'r DU sy'n pysgota am gregyn moch ym Mharth Cymru.
 - Terfyn glanio chwarterol o 15 tunnell o gregyn moch fesul cwch, yn ystod y cyfnod biolegol sensitif o fis Hydref i fis Rhagfyr bob blwyddyn i amddiffyn cregyn moch sy'n magu.
5. Ar ôl ystyried y dystiolaeth eto, data diweddar am lanio cregyn y moch a barn y diwydiant am statws y bysgodfa, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen o hyd am derfynau glanio i ddiogelu stociau ac i sicrhau bod pysgodfa cregyn moch Cymru'n gynaliadwy.
6. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cynnig cyflwyno cynllun awdurdodi ar gyfer cregyn y moch a therfyn blynyddol cyffredinol ar faint o gregyn y moch y caniateir eu dal ym mharth Cymru. Bydd y terfyn blynyddol hwn yn gysylltiedig â therfyn glanio misol hyblyg newydd ar faint o gregyn y moch y caiff pob cwch eu dal.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/1042/made>.

² Diffinnir parth Cymru gan Erthygl 3 ac Atodlen 1 o [Orchymyn Parth Cymru \(Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau\) 2010/760](#).


7. Dywedodd 94% o'r rheini a ymatebodd i ymgynghoriad 2017 ar 'Mesurau Rheoli ar gyfer Pysgodfa Cregyn Moch Cymru' eu bod o blaid cynllun i awdurdodi cychod sy'n pysgota am gregyn y moch ym mharth Cymru (sy'n cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r môr tiriogaethol hyd at 12mf)³. Hefyd, roedd 67% o'r rheini a ymatebodd o blaid gosod amodau hyblyg i'r caniatâd y gellid ei adolygu'n gyfnodol, ac roedd 76% o blaid terfyn ar faint o gregyn y moch y caniateir eu glanio bob mis.
8. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni am glywed eich barn am ein cynigion manwl ar gyfer cyflwyno:
 - Cynllun i awdurdodi pob cwch o'r DU sy'n dal cregyn y moch mewn cewyll ym mharth Cymru,
 - Terfyn blynyddol ar faint o gregyn y moch y gellir eu codi ym mharth Cymru, a
 - Therfyn glanio misol hyblyg ar gyfer y cychod sydd wedi'u hawdurdodi.

Pam mae angen rhagor o fesurau rheoli?

9. Mae cregyn y moch yn bysgod cregyn masnachol di-gwota pwysig, a chafodd gwerth tua pedair miliwn o bunnau o barth Cymru eu glanio yn 2019 (gweler Ffigur 1). Gwelwyd cynnydd mawr yn y cregyn moch o bysgodfa Cymru gafodd eu glanio yn 2015-2017 (gweler Ffigur 2). Y sbardun pennaf am hwnnw fwy na thebyg oedd y cynnydd yn eu gwerth fesul tunnell (gweler Ffigur 3). Gwelwyd cwmp yn 2018 a 2019.


³ https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/summary_of_responses-cy_0.pdf

Ffigur 1: Cyfanswm gwerth cregyn moch a laniwyd yng Nghymru gan gychod o'r DU




Ffynhonnell: MMO Ionawr 2020

Ffigur 2: Faint o gregyn y moch a laniwyd gan gychod o'r DU




Ffynhonnell: MMO Ionawr 2020

Ffigur 3: Pris blynyddol cregyn y moch ar gyfartaledd fesul tunnelli



Ffynhonnell: MMO Ionawr 2020

Ffigur 4: Nifer cychod o'r DU sy'n glanio cregyn y moch yng Nghymru



Ffynhonnell: MMO Chwefror 2020

— Nifer y cychod 10m neu lai — Nifer y cychod dros 10m — Cyfanswm y cychod

10. Nid ydym yn gwybod eto pam fu cwmp yn 2018 a 2019. Gallai cyfuniad o resymau fod wedi dylanwadu arno, fel gostyngiad yn nifer y cychod sy'n pysgota am gregyn y moch (gweler Ffigur 4), cynnydd yn y maint glanio lleiaf (Gorffennaf 2019) neu dywydd drwg.
11. Mae bron yr holl gregyn y moch yn cael eu dal mewn cewyll gydag abwyd, er bod peth yn cael eu dal fel sgil-ddalfa. Ar hyn o bryd, y maint glanio lleiaf yw'r unig fesur rheoli sy'n bod yn benodol i reoli cregyn y moch.
12. Er y bydd cynyddu'r maint glanio lleiaf yn diogelu'r rhan fwyaf o gregyn y moch tan eu bod yn cael bridio o leiaf unwaith, mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu asesiad o'r stoc i benderfynu sut orau i reoli stoc cregyn y moch yn y dyfodol.
13. Gan fod y DU bellach wedi gadael yr UE, gallai mwy o bysgotwyr o'r DU dargedu cregyn y moch gan fod eu pris wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf ac am eu bod yn cael eu hallforio'n bennaf i wledydd y tu allan i'r UE. Mae'r ffactorau hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y gallai'r stoc ddi-gwota hon gael ei gorbysgota yn y dyfodol agos sy'n golygu bod angen mesurau rheoli newydd nawr i'w diogelu.

Pa fesurau sy'n cael eu cynnig?

14. Mae Llywodraeth Cymru am gymhennu ychydig ar y cynigion a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 sy'n ymwneud â therfynau glanio (gweler paragraff 3 uchod). Rydyn ni nawr am gyflwyno'r mesurau canlynol ar gyfer rheoli cregyn y moch ym mharth Cymru:
 - i. Bod pob cwch o'r DU sy'n dal cregyn moch o gawell yn gorfod cael caniatâd (awdurdodiad) blynyddol (naill ai hawlen neu drwydded), heblaw am gychod:
 - sydd o dan 10 metr o hyd ac sydd heb injan i'w gyrru, neu
 - sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl at ddiben cludo pobl sydd am bysgota am bleser
 - ii. Codir tâl blynyddol am bob caniatâd i ddal cregyn y moch (ni fydd tâl ym mlwyddyn gyntaf y cynllun).
 - iii. Bydd 'terfyn blynyddol' ar gyfanswm cregyn y moch y caniateir eu dal ym mharth Cymru gan gychod o'r DU mewn blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli y gallai pennu terfyn glanio misol heb reoli cyfanswm cregyn y moch y ceir eu dal arwain at bwysau anghynaliadwy ar y bysgodfa.

- iv. Terfyn glanio misol hyblyg fel amod o'r caniatâd i ddal cregyn y moch. Bydd y terfyn glanio yn cyfyngu ar faint o gregyn y moch y caiff cwch eu dal o gawell mewn mis, i sicrhau na eir dros y terfyn blynyddol (gweler iii). Gallai'r terfyn glanio fynd i fyny ac i lawr.
- v. Unrhyw fesurau y gwelir bod eu hangen yn sgil cynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd⁴. Rhaid i Weinidogion Cymru roi'r mesurau hyn ar waith ac os bydd eu hangen, byddant yn ymddangos ar wyneb y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r cynllun awdurdodi.

15. Gellir ychwanegu, tynnu neu newid amodau awdurdodi yn ôl yr angen er lles y bysgodfa.

16. Gallai'r mesurau sy'n cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn olygu gorfod gwneud newidiadau canlyniadol i Is-ddeddfau Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru⁵.

17. Ni fydd angen mesurau rheoli ychwanegol bellach yn ystod cyfnodau biolegol sensitif (Hydref i Ragfyr). Mae llai'n tueddu i gael eu dal yn y cyfnodau hyn p'run bynnag gan nad yw cregyn y moch sy'n rhywiol aeddfed yn tueddu i fwydo. Dydyn nhw ddim felly'n cael eu denu i'r cewyll ag abwyd ac ar yr un pryd, mae tywydd garw fel arfer yn cyfyngu ar weithgarwch pysgota.

18. I ddechrau, dim ond cychod o'r DU fydd yn gorfod cadw at y mesurau hyn. Pan fydd y fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol ar ôl Brexit wedi'i greu, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried sut i gymhwyso'r mesurau hyn i gychod o'r tu allan i'r DU.

⁴Adran 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

⁵<https://llyw.cymru/pysgodfeydd-mor?>

Adran B: Manylion y caniatâd i ddal cregyn y moch

Gwneud cais am ganiatâd

19. Rydym yn cynnig y dylai'r caniatâd i ddal cregyn moch bara blwyddyn o ddechrau mis Mawrth tan ddiwrnod olaf mis Chwefror y flwyddyn wedi hynny. Mae'r flwyddyn honno'n cyfateb yn fras i flwyddyn fiolegol stoc cregyn moch Cymru.
20. Bob mis Rhagfyr, bydd cyfnod ymgeisio o 8 wythnos yn agor cyn dechrau'r bysgodfa ym mis Mawrth. Pe bai ymgeisydd yn colli'r cyfnod ymgeisio, fe allai wneud cais hwyr. Bydd gan ganiatâd a roddir i ymgeisydd hwyr yr un terfyn glanio misol hyblyg a'r un dyddiad olaf â chaniatâd y cafodd y cais amdano ei wneud yn brydlon.
21. Daw pob caniatâd i ben ar ddiwrnod olaf y mis Chwefror ar ôl ei roi, waeth pryd y cafodd y cais amdano ei wneud. Er enghraifft, os cafodd y caniatâd ei roi ar 21 Gorffennaf 2022, daw i ben ar 28 Chwefror 2023.
22. Os caiff y mesurau hyn eu cyflwyno, y bwriad yw i'r cyfnod ymgeisio cyntaf ddechrau tua diwedd 2020 neu ddechrau 2021, a rhoi'r caniatâd cyntaf i ddal cregyn y moch ddechrau mis Mawrth 2021.

Codi tâl am ganiatâd

23. Yn ail flwyddyn y cynllun awdurdodi, a phob blwyddyn wedi hynny, rydyn ni'n cynnig codi tâl am y caniatâd i ddal cregyn moch. Bydd y tâl yn adlewyrchu cost gweinyddu'r cynllun (heb gynnwys gorfodi) ac asesu'r stoc.
24. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio blwyddyn gyntaf y cynllun, na fydd tâl amdani, i gasglu gwybodaeth am gost rheoli'r bysgodfa a thrwy hynny, sicrhau bod cost caniatâd yn y dyfodol yn gymesur ac yn cael ei chyfrif yn gywir.
25. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar sut i gyfri'r tâl a'r union swm a godir cyn dechrau codi tâl. Mae'n bosibl mai dim ond y rheini sydd â diddordeb uniongyrchol yn y tâl fydd yn cael bod yn rhan o'r ymgynghoriad, a chaiff ei gynnal cyn dechrau codi tâl.
26. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar ôl i'r cyfnod ymgeisio gau yn dal yn gorfod talu tâl llawn caniatâd y flwyddyn honno.

Cwmpas y caniatâd a throsglwyddo caniatâd

27. O dan y cynllun awdurdodi newydd, rhaid i bawb sydd am ddal cregyn y moch gael caniatâd oni bai ei fod yn defnyddio cwch:

- sy'n llai na 10 metr o hyd ac nad yw'n cael ei yrru gan injan, neu
- sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddiben cludo pobl sydd am bysgota am bleser

28. Bydd pob caniatâd wedi'i gysylltu â chwch wedi'i enwi. Ni chaiff perchennog roi'r caniatâd i berchennog arall. Gall perchennog ofyn am gael newid y cwch a enwir ar ei ganiatâd os caiff gwch newydd yn ei le. Ni fydd tâl am newid manylion cwch.

29. Bydd meistri pysgota yn cael pysgota ar y cwch a enwir ar y caniatâd ar ran perchennog y cwch. Bydd perchennogion a meistri yn atebol ar y cyd am unrhyw droseddau a gyflawnir.

30. Nodir y manylion sydd eu hangen i gael caniatâd i ddal cregyn y moch ym **Mlwch 1**.

Blwch 1: Manylion ymgeisydd am ganiatâd i ddal cregyn y moch

1. Manylion cysylltu â pherchennog y cwch, gan gynnwys:

- Enw llawn
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost (os oes un)

2. Manylion y cwch / trwydded (os yn gymwys), gan gynnwys:

- Enw'r cwch
- Llythrennau a Rhifau'r Porthladd
- Cofrestr Morwyr a Rhif Morgludo
- Rhif y drwydded bysgota gyffredinol

Y terfyn blynyddol

31. Er mwyn amddiffyn y stoc, rydym am bennu terfyn blynyddol ar gyfanswm cregyn y moch y gellir eu dal gan ddefnyddio cewyll ym mharth Cymru.

32. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf, rydym yn cynnig terfyn blynyddol o 5298 o dunelli⁶. Dyna ar gyfartaledd bwysau cregyn y moch sydd wedi bod yn cael eu glanio bob blwyddyn gan gychod y DU yng Nghymru mewn cyfnod cyfeirio o 5 mlynedd 2015-2019.
33. Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn pennu terfyn blynyddol fydd yn seiliedig ar ganlyniadau arolygon o stoc cregyn y moch. Mae'r arolygon hynny wrthi'n cael eu comisiynu.
34. Y nod yw cwblhau'r asesiad cyntaf o stoc cregyn y moch yng Ngwanwyn 2021. Bydd hwnnw'n bwydo'r broses a ddisgrifir ym **Mlwch 2** ar gyfer pennu terfyn blynyddol yr ail ganiatâd a fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2022.
35. Gallai'r terfyn blynyddol newid o flwyddyn i flwyddyn, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf am niferoedd cregyn y moch.
36. Pan fydd gennym ddata'r asesiad o'r stoc, caiff y terfyn blynyddol ei bennu gan ddefnyddio'r drefn a ddisgrifir ym **Mlwch 2** (a gyhoeddir mewn canllaw gan Lywodraeth Cymru).

Blwch 2: Y drefn ar gyfer adolygu'r terfyn blynyddol

1. **Gorffennaf** - Dadansoddi a chyflwyno crynodeb o adroddiad sy'n seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol sydd ar gael, megis:
 - Data arolygon a gwyddonol am boblogaethau cregyn y moch ym Mharth Cymru
 - Cyngor gwyddonol Cefas neu gorff addas arall
 - Gwybodaeth am ddalfeydd a glaniadau trwy ffurflenni, llyfrau log ac e-lyfrau log
 - Data / gwybodaeth gan bysgotwyr
 - Unrhyw asesiad perthnasol a phriodol o gyflwr cadwraeth natur
 - Cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Gwybodaeth o ffynonellau perthnasol eraill

Bydd y crynodeb yn argymhell terfyn blynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn esbonio'r rhesymau am ddewis y terfyn hwnnw.

⁶Glaniadau cyfartalog o ffigur 2 dros gyfnod o 5 mlynedd: 5054 o dunelli yn 2015, 6509 o dunelli yn 2016, 6923 o dunelli yn 2017, 4563 yn 2018 a 3441 yn 2019

2. **Awst i Hydref** - Ymgynghori â'r rheini sydd eisoes wedi cael neu sydd ar fin cael caniatâd ar gynnwys y crynodeb trwy ba ddulliau y gwêl Llywodraeth Cymru'n dda.
3. **Tachwedd** - Bydd Llywodraeth Cymru'n pennu ac yn cyhoeddi'r terfyn blynyddol newydd ac ar hwnnw y bydd y terfyn glanio misol yn seiliedig.
4. **Rhagfyr** - Dechrau'r cyfnod ymgeisio 8 wythnos blynyddol.

Amodau'r terfyn misol hyblyg

37. Rydym yn cynnig neilltuo terfyn glanio misol hyblyg i bob cwch fel amod o'i ganiatâd i ddal cregyn y moch.
38. Ar sail y terfyn blynyddol o 5298 o dunelli (gweler paragraff 32 uchod) a phatrymau pysgota hanesyddol, rydym yn cynnig neilltuo i ddechrau derfyn glanio misol o 50 o dunelli.
39. Byddwn yn monitro'r cregyn moch y bydd cychod â chaniatâd yn eu glanio ar sail y terfyn blynyddol o 5298 o dunelli. Gwnawn yn siŵr na eir dros y terfyn blynyddol o 5298 o dunelli o gregyn y moch trwy newid (i fyny neu i lawr) derfyn glanio misol y caniatâd wrth i gyfnod y caniatâd fynd yn ei flaen. Ar sail data blynyddoedd cynt, mae'n annhebygol iawn y bydd mwy na chyfran fach o gychod â chaniatâd yn dal mwy na'r terfyn misol.
40. Mae'n fwriad gennym ganiatáu i bysgotwyr ddal y 5298 o dunelli ar draws y cyfnod o 12 mis, trwy reolaeth weithredol o'r terfyn glanio misol. Bydd hynny'n sicrhau bod digon o gregyn y moch ar gael ar gyfer pysgodfa gynaliadwy sy'n para'r flwyddyn gron. Fodd bynnag, pe bai yna argyfwng rheoli neu amgylcheddol, y flaenoriaeth wrth bennu'r terfyn misol hyblyg fydd diogelu'r stoc cregyn y moch yn hytrach na'r terfyn blynyddol. Pe bai angen, gellid cau'r bysgodfa trwy ostwng y terfyn glanio misol i sero.
41. Caiff y terfyn glanio misol ei adolygu, ac os gwelir bod angen, ei newid bob mis. Ond os bydd angen o ran yr amgylchedd neu reoli, gellir ei adolygu a'i newid yn amlach.
42. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r rheini sydd â chaniatâd os bydd y terfyn glanio misol yn newid.

43. Trwy reoli'r bysgodfa yn y ffordd a ddisgrifir uchod, bydd pysgotwyr yn llai tebygol o deimlo pwysau i ddefnyddio'r terfyn glanio mewn tywydd drwg a pheryglus yn y gaeaf.

Amodau eraill y caniatâd

44. Rydym yn cynnig bod y rheini sydd â chaniatâd yn cadw at yr amodau canlynol:

- I. Rhoi gwybodaeth ystadegol i Lywodraeth Cymru i helpu i asesu'r stoc. Gallai hyn gynnwys data ar nifer y cewyll a ddefnyddir, faint o gregyn y moch sy'n cael eu taflu yn ôl i'r nôr am eu bod yn rhy fach, lleoliad y pysgota ac ati.
- II. Rhoi data am laniadau yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.
- III. Cadw a glanio cregyn moch cyfain yn unig, yn eu cregyn.
- IV. Defnyddio system monitro cychod fyw ar fwrdd y cwch wrth gymryd cregyn moch o'u cewyll ym mharth Cymru.

45. Er mwyn diogelu stoc cregyn y moch, bydd yn bosibl ychwanegu amodau newydd at y caniatâd a newid yr amodau. Bydd yr amodau hynny'n gymesur a lle'n gymwys, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol neu angen gweinyddol.

Adran C: Gweithredu

Sut y caiff y cynigion eu rhoi ar waith?

46. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio deddfwriaeth briodol i gyflwyno cynllun awdurdodi dal cregyn y moch gyda'r amodau hyblyg a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn. Gallai Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru newid yr amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd i ddal cregyn y moch yn ôl y gofyn er mwyn rheoli'r bysgodfa'n gynaliadwy.

Beth fydd effeithiau'r cynigion?

47. Bydd yn drosedd:

- i. i gwch o'r DU ddal cregyn moch o gewyll ym mharth Cymru heb fod caniatâd i ddal cregyn moch wedi'i roi i gwch a enwir.
- ii. torri amod o'r caniatâd i ddal gregyn y moch, e.e. dal mwy na'r terfyn glanio misol hyblyg mewn mis calendr.

Ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio?

48. Bydd angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru ar bob cwch o'r DU sydd am bysgota am gregyn moch ym Mharth Cymru (heblaw am yr eithriadau ym mharagraff 27 uchod). Bydd perchenogion, meistri a siarterwyr y cychod hynny'n atebol, gyda'i gilydd ac fel unigolion, am droseddau o dan y cynllun awdurdodi.

Beth ydym ni'n ceisio'i wneud?

49. Bwriad y pecyn hwn o fesurau yw rhoi'r pwerau hyblyg i Weinidogion Cymru allu diogelu'r stoc cregyn moch. Yn y tymor byr, bydd yn sicrhau na fydd lefelau pysgota am gregyn y moch yn codi'n uwch na lefelau heddiw ac yn sicrhau sefydlogrwydd y bysgodfa. Yn y tymor hwy, byddant yn diogelu cregyn y moch yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau bod y bysgodfa'n gynaliadwy.

Mesurau Rheoli Cregyn y Moch 2020

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Enw _____

Cyfeiriad _____

Sefydliad _____
(os oes un)

Rhif Ffôn _____

Cyfeiriad E-bost _____

Beth yw'ch cysylltiad â'r diwydiant pysgota?

- Pysgotwr masnachol
- Pysgotwr hamdden
- Masnachwr/Prosesydd (manylwch) _____
- Amgylchedd / Cadwraeth
- Arall (manylwch) _____
-

1. Ydych chi'n cytuno â phrif amcan Llywodraeth Cymru i ddiogelu stociau cregyn y moch a thrwy hynny, sefydlogi pysgodfa cregyn moch Cymru?

Ydw Nac ydw Dim sylw

2. Ydych chi'n cytuno y dylai cychod o'r DU gael eu gwahardd rhag dal cregyn y moch o gewyll ym Mharth Cymru heb ganiatâd?

Ydw Nac ydw Dim sylw

3. Ydych chi'n cytuno y dylech orfod gwneud cais am ganiatâd newydd bob blwyddyn, o ddechrau Mawrth tan ddiwedd Chwefror y flwyddyn ganlynol?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

4. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru godi tâl am ganiatâd?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

5. Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer pennu terfynau glanio yn y dyfodol, a ddisgrifir ym Mluch 2?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

6. Ydych chi'n cytuno y dylai perchenogion cychod gael eu gwahardd rhag dal mwy na'r terfyn glanio misol?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

7. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd roi gwybodaeth ystadegol i Lywodraeth Cymru, fel nifer y cewyll y pysgotir â nhw, nifer cregyn y moch sy'n llai na'r maint lleiaf, lleoliad y pysgota ac ati i helpu i asesu'r stociau?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

8. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd gasglu data (fel y disgrifir ym mharagraff 44) i helpu i asesu'r stoc?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

9. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd roi data am faint o gregyn y maent yn eu glanio yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

10. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wahardd cychod â chaniatâd rhag cadw neu lanio cregyn moch sydd heb eu cregyn?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

11. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd sicrhau bod ganddynt system fyw i fonitro bwrdd y cwch wrth bysgota am gregyn moch o gewyll ym mharth Cymru?

Ydw

Nac ydw

Dim sylw

12. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai rhoi caniatâd i ddal cregyn moch â therfyn glanio hyblyg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Rhowch eich atebion yn y fan hon:

13. Eglurwch hefyd pam yr ydych yn credu y gellid ffurfio polisi ar ganiatâd i ddal cregyn y moch â therfyn glanio hyblyg neu ei newid fel y caiff ddylanwad positif neu fwy o ddylanwad positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn yr un ffordd â'r Saesneg, ac na fydd unrhyw ddylanwad anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Rhowch eich atebion yn y fan hon:

14. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Rhowch eich atebion yn y fan hon:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: